

2021 Rhif (Cy.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A458
(Spring Bank, y Trallwng, Powys)
(Gwahardd Cerbydau Dros Dro)
2021

Gwnaed

1 Rhagfyr 2021

Yn dod i rym

8 Rhagfyr 2021

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A458, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Spring Bank, y Trallwng, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 8 Rhagfyr 2021.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys, cerbydau gwasanaeth cynnal a chadw yn ystod y gaeaf, bysiau trafnidiaeth gyhoeddus neu gerbydau sy'n cael eu defnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrrd (Cyfngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

2021 No. (W.)

ROAD TRAFFIC, WALES

The A458 Trunk Road (Spring Bank, Welshpool, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2021

Made

1 December 2021

Coming into force

8 December 2021

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A458 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A458 Trunk Road (Spring Bank, Welshpool, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2021 and this Order comes into force on 8 December 2021.

Interpretation

2. In this Order—

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used by the emergency services, winter maintenance service vehicles, public transport buses or vehicles being used in connection with the works giving rise to this Order;

(1) 1984 c. 27; Section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 09:00 o’r gloch ar 8 Rhagfyr 2021 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw'r darn o gefnffordd yr A458 Amwythig i Dolgellau sy'n ymestyn o bwynt 250 o fetrau i'r dwyrain o ganol y fynedfa i'r eiddo o'r enw Spring Bank hyd at bwynt 220 o fetrau i'r dwyrain o ganol y fynedfa honno yn y Trallwng, Powys.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd.

Cymhwysedd

4. Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

1 Rhagfyr 2021

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the length of the A458 Shrewsbury to Dolgellau trunk road that extends from a point 250 metres east of the centre of the access to the property known as Spring Bank to a point 220 metres east of the centre of that access at Welshpool, Powys;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 09:00 hours on 8 December 2021 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

Prohibition

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road.

Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

Dated

1 December 2021